Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 15)
Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a c.) 1994 (fel y'u diwygiwyd)

Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi dogfennau cynigion cyn-adnau ar gyfer y cynllun uchod. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn disodli'r cynllun datblygu presennol ac yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r dogfennau cynigion cyn-adnau'n amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod, yr opsiynau strategol, y Strategaeth a Ffafrir a'r polisïau allweddol, ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir allweddol ac Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol), ynghyd ag adroddiad Rhagarweiniol Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae copïau o'r dogfennau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, yn ddi-dâl, yn swyddfeydd canlynol y Cyngor Sir, rhwng 8.45am a 5.00pm dydd Llun–dydd Iau, a rhwng 8.45am a 4.30pm ar ddydd Gwener. Maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk;

- Y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin
- Y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, Tŷ Elwyn, Llanelli
- Y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, Neuadd y Dref, Rhydaman
- Y Gwasanaethau Cynllunio, 40 Heol Spilman, Caerfyrddin
- Y Gwasanaethau Cynllunio, Adeiladau'r Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo

Gellir archwilio copïau yn ddi-dâl ym mhob llyfrgell gyhoeddus yn y Sir yn ystod yr oriau agor arferol. Gellir prynu copïau hefyd o swyddfa'r Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Heol Spilman, Caerfyrddin.

Dylid anfon sylwadau (*gan gynnwys gwrthwynebiadau*) ynghylch y cynigion, yn ysgrifenedig, at: Y Rheolwr Blaengynllunio, Y Gwasanaethau Cynllunio, Adran Adfywio a Hamdden, 40 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LQ. Gellid hefyd eu hanfon ar-lein, neu drwy e-bostio blaengynllunio@sirgar.gov.uk
Dylai sylwadau (*gan gynnwys gwrthwynebiadau*) nodi at ba faterion penodol maent yn cyfeirio a rhaid iddynt cael eu dderbyn **nid yn hwyrach na'r 4 Ionawr 2010**. Sylwer y bydd yr holl sylwadau a gyflwynir ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ac na ellir eu trin yn gyfrinachol.

Gellir cael ffurflen cyflwyno sylwadau o'r cyfeiriad uchod neu ar-lein o www.sirgar.gov.uk

Gellir anfon cais gyda sylwadau am gael eich hysbysu i gyfeiriad penodol ynghylch cam nesaf y CDLl a/neu bod y CDLl wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol a/neu bod y cynllun wedi cael ei fabwysiadu.

Nid oes gofyn bod yr Awdurdod yn ystyried sylwadau heblaw'r rhai a wnaed yn unol â'r hysbysiad hwn. Ni fydd sylwadau a wnaed yn y cyfnod cyn-adnau presennol yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd a benodir i gyflawni'r Archwiliad Annibynnol. Bydd cyfle pellach i gyflwyno sylwadau yn y cyfnod adnau, a bydd y sylwadau hynny'n cael eu hystyried yn yr archwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r Adain Blaen-gynllunio, y Gwasanaethau Cynllunio, yr Adran Adfywio a Hamdden, 40 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LQ, rhif ffôn 01267 228818, e-bost blaengynllunio@sirgar.gov.uk, a gellir gweld gwybodaeth ar-lein yn www.sirgar.gov.uk

D Gilbert, A.C.I.S., D.M.S., M.C.M.I
Cyfarwyddwr Adfywio a Hamdden